



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Polisi Rheoli Gwastraff

TAFLEN GLAWR Y POLISI

Manylion Allweddol

TEITL POLISI	<i>Polisi Rheoli Gwastraff</i>
DYDDIAD CYMERADWYO	<i>7 Mai 2025</i>
CORFF CYMERADWYO	<i>Bwrdd Academaidd</i>
FERSIWN	<i>1</i>
DYDDIAD YR ADOLYGIAD BLAENOROL	<i>N/A</i>
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	<i>Mawrth 2027</i>
CANLYNIAD ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB	<i>*Dim newid mawr</i>
POLISI'AU / GWEITHDREFNAU / CANLLAWIAU CYSYLLTIEDIG	<i>Strategaeth Cynaliadwyedd Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd Cynllun Rheoli Carbon 2024- 2030 Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy Targedau Cynaliadwyedd a Ffocws Rheoli Carbon</i>
DYDDIAD GWEITHREDU	<i>Mai 2025</i>
PERCHENNOG Y POLISI (TEITL SWYDD)	<i>Pennaeth Gwasanaethau Campws, Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Amgylchedd ac Ystadau</i>
UNED / GWASANAETH	<i>Yr Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd</i>
E-BOST CYSWLLT	<i>dferris@Cardiffmet.ac.uk</i>

Rheoli Fersiynau

FERSIWN	DYDDIAD	RHESWM DROS NEWID
<i>A</i>	<i>Mawrth 2025</i>	<i>Fersiwn gyntaf i GGB ei hystyried – aliniad â pholisïau eraill – newid o</i>

		<i>Strategaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol</i>
<i>1.0</i>	<i>Mai 2025</i>	<i>Fersiwn cyntaf</i>

Hyb Polisi

I gael rhagor o wybodaeth am bolisiâu:

- 1 Gallwch fynd i dudalennau'r Ysgrifenyddiaeth ar InSite yn <https://outlookuwicac.sharepoint.com/sites/Secretariat>;
- 2 Gallwch fynd i'r Hyb Polisi yn cardiffmet.ac.uk/about/policyhub; neu
- 3 Cysylltwch â policies@cardiffmet.ac.uk.

Cynnwys

Manylion Allweddol.....	1
Rheoli Fersiynau	1
Hyb Polisi	2
1 Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
2 Polisi.....	5
3 Rolau a Chyfrifoldebau	6
4 Polisiâu a Gweithdrefnau Cysylltiedig.....	8
5 Adolygu a Chymeradwyo	8

Polisi Rheoli Gwastraff

1 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd y rôl y gall eich chwarae wrth warchod ein hamgylchedd naturiol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn fyd-eang wrth hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd ar draws ei holl weithgareddau, gan gynnwys cynhyrchu gwastraff a chael gwared ar wastraff o'r campws.

1.2 Cwmpas

- 1.2.1 Pwrpas y polisi yw darparu'r fframwaith i ymgorffori'r egwyddorion allweddol sydd eu hangen i gyflawni amcan y Brifysgol i leihau Gwastraff ar draws yr holl weithgareddau busnes.
- 1.2.2 Mae'r Polisi Rheoli Gwastraff hwn yn berthnasol i holl fyfyrwyr, aelodau staff, contractwyr ac ymwelwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
- 1.2.3 Mae rheoli gwastraff yn effeithiol yn elfen hanfodol o sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd (Met Caerdydd). Mae rheoli gwastraff, ynghyd â'r adnoddau sydd eu hangen i'w gyflawni'n effeithlon, yn cefnogi amcanion cynaliadwyedd ehangach y Brifysgol yn uniongyrchol, fel yr amlinellir ym Mholisi Cynaliadwyedd y Brifysgol a'i Chynllun Rheoli Carbon 2024-2030.
- 1.2.4 Dylid ystyried y gofynion y polisi, ar y cyd â'r ddogfen Targedau Cynaliadwyedd a Ffocws Rheoli Carbon ym mhob gweithgaredd busnes, gan sicrhau agwedd cylch oes cyfan at wneud penderfyniadau mewn perthynas â chaffael adnoddau.
- 1.2.5 Mae Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd Met Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor trwy reoli adnoddau'n gyfrifol. Yn unol â hyn, mae'r Brifysgol yn anelu at gynhyrchu cyn lleied â phosibl o wastraff a gwneud y gorau o adennill adnoddau trwy weithredu a chynnal egwyddorion craidd Sbwriel, Ailddefnyddio ac Ailgylchu. Bydd y Brifysgol, lle bo hynny'n ymarferol ac yn economaidd hyfyr, yn datblygu ac yn gweithredu systemau i leihau'r gwastraff a gynhyrchir, cynyddu ailddefnyddio deunyddiau, ac ailgylchu cymaint â phosibl, gan gefnogi economi gylchol yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.
- 1.2.6 Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar ddau Gampws – Llandaf ar gyfer addysgu a Chyncoed ar gyfer addysgu a neuaddau preswyl: Neuaddau preswyl Plas Gwyn a swyddfeydd staff a swyddfeydd staff – Tŷ Alexander a CBAC.
- 1.2.7 Mae'r Polisi hwn yn cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy:



Commented [MOU1]: These three images cannot be edited. Please see translation below:

Responsible consumption and production – Defnyddio a chynhyrchu cyfrifol

Climate action – Gweithredu ar newid hinsawdd

Life below water – Bywyd o dan y dŵr

1.3 Diffiniadau

1.3.1 **Nodau Datblygu Cynaliadwy Nodau Datblygu Cynaliadwy** - Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) yn set o 17 nod a sefydlwyd yn 2015 gan y Cenhedloedd Unedig (CU). Bwriad y nodau yw creu byd mwy cynaliadwy a theg drwy fynd i'r afael â heriau byd-eang.

1.3.2 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gyfraith sy'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Pwrpas y ddeddf yw sicrhau bod gweithredoedd yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

1.3.3 **ISO 14001** Mae gweithgareddau'r Brifysgol yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO 14001. Cefnogir hyn gan gyhoeddiad ac adrodd ar amcanion clyfar a blaenoriaethau i gyflawni'r EMS, y Strategaeth Gynaliadwyedd a'r Cynllun Rheoli Carbon gyda pholisïau thema cynaliadwyedd.

1.3.4 Mae **Carbon Net Sero** yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng faint o nwyon tŷ gwydr (GHG) y mae'r Brifysgol yn ei gynhyrchu a faint sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer. Gellir ei gyflawni trwy gyfuniad o leihau allyriadau a dileu allyriadau.

2 Polisi

2.1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod diffiniad eang o gynaliadwyedd, yn seiliedig ar ymgysylltu â datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

2.2 Rydym yn deall bod ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO 14001.

2.3 Rydym wedi ymrwymo i wreiddio'r nodau perthnasol yn ein proses fusnes ac academiaidd, fel y nodir Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy rhifau 12, 13 ac 14 yn arbennig o berthnasol i'r Polisi hwn.

2.4 Mae Strategaeth 2030, cynllun strategol y Brifysgol, yn gosod cynaliadwyedd yn gadarn wrth ei gwraidd drwy nodi 'Dyfodol Carbon Isel' fel blaenoriaeth strategol. Bydd y Brifysgol yn cyflawni ei nod o ddod yn Garbon Net Sero ar gyfer allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 erbyn 2030; ac ochr yn ochr â hyn yn

symud ymlaen â'r gwaith o leihau ei hallyriadau Cwmpas 3 30% erbyn 2030 gyda'r nod o gyflawni allyriadau Carbon Sero Net ar gyfer Cwmpas 3 erbyn 2040.

- 2.5 Mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o sero gwastraff peryglus i safleoedd tirlenwi, yn ogystal â chynyddu'r gyfradd ailgylchu i 70% erbyn 2030, gan arwain at ostyngiad o 5% mewn tCO₂e o'i waelodlin yn 2021/22. Mae'r gost sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff yn her ariannol ac yn gyfle amgylcheddol. Trwy leihau'r defnydd o adnoddau a gwneud y mwyaf o aildddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau, gall y Brifysgol leihau ei heffaith ar yr amgylchedd tra'n gostwng ei sylfaen costau.
- 2.6 Mae dull y Brifysgol o Reoli Gwastraff yn canolbwyntio ar yr amcanion craidd canlynol:
- 2.6.1 Sbwriel – Mynd ati i leihau'r gwastraff a gynhyrchir yn y ffynhonnell, gan ganolbwyntio ar arferion caffael cynaliadwy sy'n lleihau defnydd diangen.
 - 2.6.2 Aildddefnyddio – Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ail-dddefnyddio deunyddiau ac ymestyn cylch bywyd cynhyrchion trwy fentrau aildddefnyddio ar draws y Brifysgol yn ogystal â chysylltiadau â sefydliadau trydydd parti allanol ar gyfer Aildddefnyddio eitemau ar ddiwedd Prifysgol cylch bywyd.
 - 2.6.3 Ailgylchu – Sicrhau bod deunyddiau na ellir eu haildddefnyddio yn cael eu hailgylchu'n effeithiol at ddibenion amgen, gan gyfrannu at adennill adnoddau.
 - 2.6.4 Lleihau – Lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi drwy gymryd rhan mewn arferion rheoli gwastraff arloesol a manteisio ar y marchnadoedd gwastraff ac ailgylchu.
 - 2.6.5 Cyfrifoldeb – Sicrhau bod yr holl ffrydiau gwastraff yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol, gan ddiogelu ystâd y Brifysgol a'r amgylchedd cyfagos rhag llygredd.
- 2.7 Cofnodi data manwl gywir o'r holl bwysau llif gwastraff a chwblhau adroddiadau i HESA yn flynyddol.
- 3 Rolau a Chyfrifoldebau
- 3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl Fyfyrwyr, Staff, Contractwyr ac Ymwelwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

- 3.2 Cyfarwyddiaeth Amgylchedd ac Eiddo'r Brifysgol sy'n gyfrifol am ei weithredu trwy gamau gweithredu a nodir yn y ddogfen Targedau Cynaliadwyedd a Ffocws Rheoli Carbon a bydd yn gweithio gydag Ysgolion a Chyfarwyddiaethau i gefnogi defnydd cyfrifol ac effeithiol o adnoddau i leihau'r gwastraff a gynhyrchir.
- 3.3 Mae holl staff y Brifysgol yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a'u gweithredoedd priodol fel y nodir yn y ddogfen Targedau Cynaliadwyedd a Ffocws Rheoli Carbon.
- 3.4 Bydd Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Eiddo yn ymgymryd â'r canlynol:-

3.4.1 Datblygu Targedau Rheoli Gwastraff

Set o dargedau SMART, sy'n nodi camau gweithredu, cyfrifoldebau ac amserlenni penodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisi hwn. Bydd targedau penodol, mesuradwy yn cael eu sefydlu ar gyfer lleihau gwastraff, ailgylchu a dargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Bydd y targedau hyn yn cyd-fynd â nodau Llywodraeth Cymru ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i ysgogi gwelliant parhaus.

3.4.2 Adolygu Polisi a Gweithdrefnau yn Rheolaidd

Bydd y Brifysgol yn adolygu ei harferion, canllawiau a gweithdrefnau rheoli gwastraff yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn unol â deddfwriaeth esblygol Llywodraeth Cymru ac arferion gorau'r sector.

3.4.3 Gweithredu Mesurau Monitro a Chydymffurfiaeth

Bydd systemau monitro effeithiol yn cael eu sefydlu i olrhain perfformiad rheoli gwastraff, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a thargedau mewnol. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau gwastraff rheolaidd ac adrodd ar ganfyddiadau a gweithredu argymhellion.

3.4.4 Adrodd ar Gynnydd yn Dryloyw

Bydd cynnydd tuag at dargedau lleihau gwastraff ac ailgylchu yn cael ei adrodd yn y Gweithgor Gweithredu ar Newid Hinsawdd, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o fewn cymuned y Brifysgol.

3.4.5 Darparu Cyfleusterau Ailgylchu ac Ailddefnyddio Hygyrch

Bydd gorsafoedd ailgylchu wedi'u lleoli'n strategol ar draws holl gampysau'r Brifysgol, gydag arwyddion dwyieithog clir a systemau hawdd eu defnyddio ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. Cefnogir hyn ymhellach gyda phroses a system i sicrhau Ailddefnydd o adnoddau.

3.4.6 Gwelliant Parhaus ac Arloesi

Mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i wella ei harferion rheoli gwastraff yn barhaus. Bydd adolygiadau, archwiliadau, a mecanweithiau adborth yn cael

eu cynnal a bydd yn sicrhau bod y strategaeth yn esblygu yn unol â pherfformiad a ffactorau dylanwadol allanol.

4 Polisiâu a Gweithdrefnau Cysylltiedig

Dylid darllen y polisi ar y cyd â'r canlynol:

- 4.1 Strategaeth Cynaliadwyedd
- 4.2 Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd
- 4.3 Cynllun Rheoli Carbon 2024 – 2030
- 4.4 Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol
- 4.5 Polisi Caffael Cynaliadwy
- 4.6 Targedau cynaliadwyedd a ffocws rheoli Carbon.

5 Adolygu a Chymeradwyo

- 5.1 Bydd perchennog y polisi yn darparu diweddariadau o'r Polisi a thargedau Cynaliadwyedd cysylltiedig a ffocws rheoli carbon i'r Gweithgor Gweithredu Hinsawdd i ddechrau ac yna i Bwyllgor Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd y Brifysgol.